# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Mawrth 2019** |
| **Pwnc:** | **Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cyng. Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol /<br>Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/ion**

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant o ran cyflawni ei raglen waith
- Bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol wedi cael ei gau a bod y ddau faes blaenoriaeth sydd heb eu gweithredu'n llawn yn cael eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod yr Ymweliadau Laming, fel modd o gryfhau ymhellach ar atebolrwydd a gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel
- Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, gyda llawer o'r gwaith yn cael ei wneud yn fewnol

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Panel o'r cynllun gwella ar gyfer y gwasanaethau plant yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn ymateb yn gadarn i argymhellion dau adroddiad AGC ar y gwasanaethau plant[1], a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

[1] Dyddiedig Mawrth, 2017 a Rhagfyr, 2018

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaethu'r ffrydiau gwaith a gynhwysir ym mlaen raglen waith y Panel?
2. A yw'r camau a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol fod sgriwtini wedi datblygu yn ystod y 18 mis diwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Gwella Gwasanaethau Plant**.

**Trefniadau Llywodraethiant y Panel**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[2] a bwriedir cynnal cyfarfodydd misol o'r Panel tan ddiwedd yr Haf, 2019 o leiaf. Mae proses mewn lle ar gyfer derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan y Cyng. Richard Griffiths, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.

**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**

2.1 Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi bod yn cyfarfod yn fisol ers mis Gorffennaf 2017 (ac wedi cyfarfod 19 o weithiau erbyn hyn). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel yn ystod y cyfnod **Rhagfyr, 2018 – Chwefror, 2019**:

- **Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG)** – cyflwynwyd trosolwg o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yng nghyfarfodydd y Panel er mwyn sicrhau bod y rhaglen gyfan yn parhau i fod ar y trywydd iawn. Hefyd, er mwyn galluogi'r Panel i nodi unrhyw lithriad neu ddiffyg cynnydd. Gofynnodd y Panel am adroddiad cynnydd ar statws Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG) pob rhan o'r CGG er mwyn sicrhau fod cynnydd yn erbyn y prif feysydd blaenoriaeth yn cael ei dracio. Adroddwyd bod cynnydd da wedi'i wneud yn gyffredinol wrth weithredu'r CGG.

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi a 13 Tachwedd, 2017

Mae'r Panel wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r agweddau canlynol yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth:

- **Meysydd Datblygu gyda Statws Ambr** – yn ei gyfarfod ym mis Ionawr[3] rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl i statws y meysydd datblygu ambr, sef:
  i. **Adran 2.1 – gwella ansawdd ymarfer.** Erbyn hyn mae'r adran hon wedi ei rhannu'n 8 rhan unigol gyda'r statws CAG a ganlyn:
  Ambr 1 Melyn 5 Gwyrdd 2
  ii. **Adran 3 – fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol.** Erbyn hyn mae'r adran hon wedi ei rhannu'n 3 rhan ar wahân gyda'r statws CAG a ganlyn:
  Ambr 0 Melyn 1 Gwyrdd 2

  Bernir bod agweddau yn canolbwyntio ar ansawdd yn fwy heriol ac o ganlyniad mae'n debygol y byddant yn cymryd mwy o amser i gyrraedd safon foddhaol.
- **Statws CAG pob un o'r blaenoriaethau allweddol (CGG)** - trosolwg manwl o statws pob blaenoriaeth allweddol (21 i gyd) er mwyn sicrhau cynnydd digonol. Mae crynodeb isod o statws cyfredol pob un o'r blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth (y sefyllfa ym mis Tachwedd, 2018):

| | |
|---|---|
| **Coch – Red** | **0** |
| **Ambr – Amber** | **2** |
| **Melyn – Yellow** | **6** |
| **Gwyrdd – Green** | **13** |

  Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol wedi cael ei gau erbyn hyn ac mae'r Gwasanaeth yn paratoi Cynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd (2019/22) sydd yn ymgorffori'r meysydd blaenoriaeth canlynol:
  i. 2 gam gweithredu gyda statws CAG Ambr o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth (y manylir arnynt uchod)
  ii. 14 maes i'w datblygu yn dilyn ail arolygiad o'r Gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru ddiwedd 2018
  iii. Blaenoriaethau lleol – sut mae llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed yn y Gwasanaethau Plant.

- **Ymweliadau Laming** - Mae trefniadau adrodd cadarn mewn lle ar gyfer yr Ymweliadau Laming gyda'r nod o ddod â'r Panel yn agosach at achosion, creu'r amodau cywir i Aelodau werthfawrogi cymhlethdodau a heriau cyfrifoldebau'r

[3] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 21 Ionawr, 2019

Gwasanaeth e.e. drwy gyfarfod â staff rheng flaen i drafod gwaith achos yn gyffredinol. Cyflwynodd Aelodau adroddiadau ar yr Ymweliadau Laming ym mis Ionawr o dan y fframwaith llywodraethiant cryfach. Roedd yr Ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar:

- ❖ **Tîm Teuluoedd Gwydn (10/01/19)** – cyflwynwyd ffordd newydd o weithio yn ystod 2018 fel rhan o'r broses o drawsnewid y gwasanaethau plant. Wrth symud ymlaen, adroddwyd bod angen sefydlu system ddata fel adnodd i nodi tueddiadau
- ❖ **Cynhadledd Staff (30/01/19)** – Yr ail Ymweliad ym mis Ionawr oedd mynychu Cynhadledd Staff. Roedd hyn yn caniatáu i Aelodau ddatblygu ymhellach eu gwerthfawrogiad o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant, cwrdd â staff rheng flaen ac egluro eu rôl fel rhieni corfforaethol.

- **Data rheoli perfformiad** - sicrhau fod fframwaith perfformiad yn bodoli sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar berfformiad yn ystod Chwarter 2, 2018/19. Adroddwyd bod cynnydd mesuradwy wedi ei wneud yn erbyn 5 dangosydd perfformiad cenedlaethol e.e. PM C-24 - canran yr asesiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol (42 niwrnod gwaith) - 67.57% (2017/18) → 91% (Ch. 1a2 2018/19). Nodwyd hefyd fod canran y plant a ail-gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng i 6.80% - canlyniad cadarnhaol a mesur o ansawdd yr ymyrraeth sydd mewn lle i gefnogi plant.
- **Cyllidebau'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** – Ym mis Ionawr[4], cyflwynodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid adroddiad ar waith y Panel mewn perthynas â monitro gwariant refeniw yn y Gwasanaethau Plant (nod → sicrhau aliniad rhwng y 2 banel sgriwtini). Nodwyd bod pwysau cyllidebol sylweddol yn parhau yn y Gwasanaeth a bod angen rhoi amser i'r mesurau lliniaru sy'n cael eu cyflwyno i ostwng gwariant ddechrau cael effaith.
- **Sicrhau Ansawdd**: **Gwaith Achos** - Rhoddodd y Panel ystyriaeth i brif negeseuon archwiliad o'r achosion a gafodd eu hailgyfeirio a gwblhawyd yn ddiweddar ac a gomisiynwyd ar gais y Panel. Nod yr archwiliad oedd dod i gasgliad ynghylch addasrwydd y penderfyniadau a'r ymyraethau a barnu hefyd a oeddynt o safon dda ac yn diwallu anghenion y plentyn ar y pryd. Adroddwyd i'r Panel fod cynnydd wedi digwydd a nifer o gryfderau wedi eu nodi. Bydd tîm sicrhau ansawdd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda thimau gwaith cymdeithasol i sicrhau cysondeb mewn ymarfer ar draws y Gwasanaeth.
- **Addysg Ddewisol yn y Cartref** - Rhoddodd y Panel ystyriaeth hefyd i'r fframwaith deddfwriaethol presennol a'r cyfyngiadau ar y Cyngor wrth geisio monitro ansawdd y ddarpariaeth addysg ddewisol yn y cartref a hefyd sicrhau fod trefniadau diogelu mewn lle. Mae'r Panel wedi gofyn am ddiweddariad ar y datblygiadau cenedlaethol ymhen 6 mis.
- **Sesiynau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth** – wedi eu hymgorffori yn rhaglen waith y Panel, cynhaliwyd y sesiynau hyn ar ddechrau pob cyfarfod o'r Panel. Mae pynciau y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys – Adroddiad ar Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (Rhagfyr 2018); ôl-ofal a sicrhau ansawdd (yn cynnwys rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol).

[4] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 21 Ionawr, 2019

| **3. MATERION I'W HUWCH GYFEIRIO I'R PRIF BANEL EU HYSTYRIED** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynghylch cadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| D/B |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| D/B |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Richard Griffiths**
**Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant / Pencampwr Plant Mewn Gofal**
**Dyddiad: 05/03/19**